**COFNODION O GYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR – NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD AR DDYDD IAU, 18 MAI 2017**

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, E M Jones, G Jones, J R Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, S Lewis, MC Mackenzie, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, JG Morris, G Morgan, N Morrison, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, J Pugh, G Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

Diolchodd y Cadeirydd oedd yn sefyll i lawr, Keith Tampin, i'w wraig, ei ysgrifenyddes ac i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn y bu yn y swydd. Talodd yr aelodau deyrnged i Mr Tampin am y ffordd yr oedd wedi cynrychioli'r Cyngor.

| 1. | ETHOL CADEIRYDD |
|---|---|

Cafodd y Cynghorydd Sir Dai Davies ei enwebu gan Sir Drefaldwyn.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Dai Davies yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

| 2. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Roedd pob un o'r Aelodau wedi datgan budd personol ond diduedd mewn Cyflogau, Lwfansau a Threuliau'r Aelodau o dan baragraff 12 (2) (b) (iv) y Cod Ymddygiad.

| 4. | ADRODDIAD Y SWYDDOG CANLYNIADAU - ETHOL CYNGHORWYR SIR |
|---|---|

Derbyniodd y Cyngor fanylion am y Cynghorwyr a gafodd eu hethol ar 4 Mai 2017.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| Nodi manylion y Cynghorwyr a gafodd eu hethol ar 4 Mai 2017. | I gydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor. |

| 5. | ETHOL ARWEINYDD GWEITHREDOL |
|---|---|

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris. Yn dilyn pleidlais,

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris i'r swydd o Arweinydd Gweithredol Cyngor Sir Powys.**

| 6. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD GWEITHREDOL |
|---|---|

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Grŵp Annibynnol yn gweithio gyda Grŵp y Ceidwadwyr i ffurfio Cabinet. Byddai'n rhoi gwybod am y penodiadau i'r Cabinet yn y dyddiau nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod am newid trefn yr agenda i drafod yr adroddiadau ar Gyngor Cymuned Trefeglwys ac ar Gyflogau, Lwfansau a Threuliau'r Aelodau nesaf cyn gohirio'r Cyngor fel bo'r Pwyllgorau Sirol yn gallu cwrdd ac fel bod arweinwyr y grwpiau'n gallu cwrdd a phenderfynu ar bwy i'w penodi i'r pwyllgorau.

| 7. | CYNGOR CYMUNED TREFEGLWYS |
|---|---|

Cafodd y Cyngor wybod na ddaeth ymgeiswyr gerbron i sefyll ar gyfer Cyngor Cymuned Trefeglwys yn yr etholiadau ar 4 Mai 2017. Hyd nes y byddai etholiad yn cael ei gynnal ar 29 Mehefin 2017, cynigiwyd bod y Cynghorydd Sir dros Flaen Hafren, Caersws, Llanidloes a Llandinam yn gweithredu fel aelodau dros dro.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees a'i eilio gan y Cynghorydd Sir MC Alexander a chafodd ei basio o 68 pleidlais i 0 gydag 1 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Gwneud Gorchymyn Cyngor Cymuned Trefeglwys (Dileu Anhawster) 2017 fel y'i gosodir allan yn Atodiad A i'r adroddiad.** | **Fel bo'r Cyngor Cymuned dywededig yn gallu gweithredu yn y cyfamser cyn yr etholiad ar 29 Mehefin 2017.** |

| 8. | CYFLOGAU, LWFANSAU A THREULIAU AELODAU |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau ar Gyflogau, Lwfansau a Threuliau'r Aelodau ynghyd â'r Atodlen o Daliadau'r Aelodau. Roedd y cyflogau, lwfansau a'r ffioedd a delir i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig y

Cyngor wedi eu pennu'n unol ag ystatud, rheoliadau ac adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees a'i eilio gan y Cynghorydd Sir JM Williams a chafodd ei basio o 68 pleidlais i 0 gydag 1 yn ymatal.

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm dros y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **1. Cymeradwyo'r dyraniad o hyd at 18 o Uwch-Gyflogau fel y nodir hynny yn adran 4 yr adroddiad.**<br>**2. Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.**<br>**3. Cymeradwyo'r Atodlen o Daliadau'r Aelodau ar sail yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys unrhyw ddiwygiadau i Gadeiryddion y Pwyllgorau.** | **Er mwyn gwneud penderfyniadau ar Gyflogau, Lwfansau a Threuliau'r Aelodau'n unol ag ystatud ac adroddiad blynyddol a rheoliadau'r IRPW.** |

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn gohirio'r cyfarfod fel bo'r Pwyllgorau Sirol yn gallu cwrdd i ystyried enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd ac Is-gadeirydd Cynorthwyol y Cyngor. Gohiriwyd y Cyngor am 11.15am cyn ail ymgynnull am 1.09pm. Gadawodd y Cynghorydd Sir PC Pritchard y cyfarfod.

| | |
|---|---|
| **9.** | **DYRANIADAU, ETHOLIADAU A PHENODIADAU SYDD ANGEN EU GWNEUD YN Y CYFARFOD BLYNYDDOL** |

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor ar y dyraniadau a'r penodiadau sydd i'w gwneud i bwyllgorau a chyrff allanol.

**Penodiadau i'r Pwyllgorau Sirol**

Cynigiwyd yr argymhelliad o dan 5.3 yn yr adroddiad i benodi aelodau ar y Pwyllgorau Sirol gan y Cynghorydd Sir MC Alexander, ei eilio gan y Cynghorydd Sir KM Roberts-Jones a'i basio o 68 pleidlais i 1 gyda neb yn ymatal.

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm dros y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **Gwneud penodiadau i'r Pwyllgorau Sirol fel y cawsant eu gosod allan yn Atodiad 5.** | **Er mwyn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor yng nghyswllt dyrannu a phenodi pwyllgorau.** |

**Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau**

Cynigiwyd yr argymhelliad o dan baragraff 5.5 yn yr adroddiad ar benodiadau i'r Pwyllgor Safonau gan y Cynghorydd Sir KM Roberts-Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Sir MC Alexander a'i basio o 67 pleidlais i 0 gyda neb yn ymatal.

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm dros y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **(i) Bod y Cyngor yn cytuno ar y** | **Er mwyn cydymffurfio â** |

| | |
|---|---|
| **canlynol:**<br><br>**(a) dechrau proses o benodi Aelod Annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau am dymor o chwe blynedd o fis Hydref 2017 ymlaen yn unol â'r amserlen a osodir allan yn Atodiad 6C yr adroddiad;**<br>**(b) y meini prawf a osodir allan yn Atodiad 6B.**<br>**(c) yn amodol ar (d) isod, yr hysbyseb papur newydd ddrafft a osodir allan yn Atodiad 6A, a chadarnhau y dylai ymddangos yn y County Times a'r Brecon and Radnor Express.**<br>**(d) awdurdodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau i gymryd pa bynnag gamau sydd angen eu cymryd yn eu barn hwy i gyflawni'r amcanion y cyfeirir atynt yn Atodiad 6. Hyn i gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) y pŵer i (i) ychwanegu at ac addasu cynnwys yr hysbyseb papur newydd (yn amodol ar gydymffurfio â'r rheoliadau); (ii) hysbysebu ymhellach / codi ymwybyddiaeth; a (iii) cynhyrchu llenyddiaeth / deunydd hyrwyddo ychwanegol.**<br><br>**(ii) Bod y Cyngor yn cytuno ar gyfansoddiad y Panel a osodir allan yn Atodiad 6 ac yn dirprwyo'r pŵer i benodi eilyddion i'r Swyddog Monitro fel y gosodir hynny allan yn Atodiad 6.** | **Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2011 (diwygiwyd) yng nghyswllt penodi Aelodau (Lleyg) Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau.** |

**Penodi Cynghorwyr Sir i'r Pwyllgor Safonau**

Enwebwyd yr aelodau canlynol gan y grwpiau gwleidyddol:

| *Grŵp Gwleidyddol* | *Enwebiad* |
|---|---|
| Grŵp Annibynnol | Y Cynghorydd Sir Kath Roberts-Jones<br>(i'w gadarnhau gan y Grŵp Annibynnol) |
| Grŵp Ceidwadwyr Cymru | Y Cynghorydd Sir Sarah Lewis |
| Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Y Cynghorydd Sir Kathryn Silk |
| Llafur Cymru | Y Cynghorydd Sir Susan McNicholas |

Roedd y Cyngor wedi cadarnhau ei fod yn fodlon i Gyfreithiwr y Cyngor dderbyn enwebiadau a chymeradwyo penodiadau i'r Pwyllgor Safonau'n unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol unwaith y byddai'r enwebiad gan y Grŵp Annibynnol wedi'i gadarnhau.

**Penodi Aelodau Cyfetholedig i Bwyllgor Craffu B**

Derbyniwyd yr enwebiadau canlynol ar gyfer aelodau cyfetholedig i wasanaethu ar Bwyllgor Craffu B wrth ystyried materion addysg:

| | |
|---|---|
| Cynrychiolydd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru | Mrs Margaret Evitts |
| Cynrychiolydd Esgobaeth yr Eglwys Gatholig | Dim enwebiad wedi dod i law. |
| Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwr (sector cynradd) | Mr Nigel Bufton |
| Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwr (sector uwchradd) | Mrs Angela Davies |
| Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwr (sector anghenion arbennig) | Mrs Sara Davies |

Roedd y Cyngor wedi cadarnhau ei fod yn fodlon i Gyfreithiwr y Cyngor dderbyn enwebiadau ar gyfer cynrychiolydd ar ran Esgobaeth yr Eglwys Gatholig.

Cynigiwyd yr argymhelliad ym mharagraff 5.12 yn yr adroddiad ar benodi cynrychiolwyr cyfetholedig i wasanaethu ar Bwyllgor Craffu B gan y Cynghorydd Sir JM Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees a'i basio o 65 pleidlais i 0 gydag 1 yn ymatal.

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm dros y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **Penodi'r Cynrychiolwyr Cyfetholedig a osodir allan ym mharagraff 5.11 yn yr adroddiad i Bwyllgor Craffu B.** | **Er mwyn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor yng nghyswllt dyrannu a phenodi pwyllgorau.** |

**Penodiadau Gwleidyddol Gytbwys i Bwyllgorau'r Cyngor**

Bu'r Cyngor yn ystyried Atodiad 7 diwygiedig i'r adroddiad yn gosod allan hawliau'r grwpiau i seddi ar bwyllgorau yn ôl yr hyn a gytunwyd gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol. Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo'r dyraniad seddi gan y Cynghorydd Sir MC Alexander a'i eilio gan y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees a chafodd ei basio o 68 pleidlais i 0 gyda neb yn ymatal.

| **PENDERFYNWYD:** | **Rheswm dros y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **Adolygu a phenderfynu'r dyraniad seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor i'r gwahanol Grwpiau Gwleidyddol** | **Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys rhai'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd** |

| | |
|---|---|
| **yn unol ag Atodiad 7.** | **gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor yng nghyswllt dyrannu a phenodi Cadeiryddion a seddi ar bwyllgorau.** |

Dywedodd Gyfreithiwr y Cyngor fod Atodiad 8 i'r adroddiad yn nodi enwebiadau'r grwpiau gwleidyddol i'r pwyllgorau ond yn rhannol gyflawn. Gofynnodd y Cyfreithiwr i'r Cyngor am awdurdod i dderbyn enwebiadau gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ac i gymeradwyo penodiadau i bwyllgorau'n unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Sir JM Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Sir DR Price a chafodd ei basio o 66 pleidlais i 0 gyda 2 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD: | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Awdurdodi Cyfreithiwr y Cyngor i dderbyn enwebiadau gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ac i gymeradwyo penodiadau i bwyllgorau'n unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.** | **Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys rhai'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor yng nghyswllt dyrannu a phenodi Cadeiryddion a seddi ar bwyllgorau.** |

**Penodi Cadeiryddion i'r Pwyllgorau Craffu**

Dywedodd Gyfreithiwr y Cyngor bod gan y Grŵp Annibynnol a Grŵp y Ceidwadwyr, sy'n ffurfio'r grŵp gweithredol, hawl i benodi Cadeirydd ar gyfer un o'r Pwyllgorau Craffu ac y byddai'r ail benodiad yn cael ei wneud gan y pwyllgor. Gofynnodd y Cyfreithiwr i'r Cyngor roi awdurdod iddo dderbyn enwebiadau gan arweinwyr y Grŵp Annibynnol a Grŵp y Ceidwadwyr. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Sir JM Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Sir MJ Jones a chafodd ei basio o 46 pleidlais i 12 gyda 3 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD: | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Awdurdodi Cyfreithiwr Sirol y Cyngor i dderbyn enwebiadau gan arweinwyr y Grŵp Annibynnol a Grŵp y Ceidwadwyr.** | **Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys rhai'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor yng nghyswllt dyrannu a phenodi Cadeiryddion a seddi ar bwyllgorau.** |

**Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Dywedodd Gyfreithiwr y Cyngor fod yn rhaid penodi aelod o un o'r gwrthbleidiau i'r swydd hon. Enwebwyd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance gan y Grŵp Llafur a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Gary Price ac o 64 pleidlais i 2 gyda 2 yn ymatal,

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Penodi'r Cynghorydd Sir Matthew Dorrance yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.** | **Er mwyn gwneud penodiadau'n unol ag ystatud a'r Cyfansoddiad.** |

**Penodiadau i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Dywedodd Gyfreithiwr y Cyngor nad oedd pob un o'r grwpiau gwleidyddol wedi cyflwyno eu henwebiadau a gofynnodd am awdurdod dirprwyedig i dderbyn enwebiadau. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Sir DW Meredith a'i eilio gan y Cynghorydd Sir E Durrant ac o 55 pleidlais i 0 gyda 8 yn ymatal,

| PENDERFYNWYD: | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Awdurdodi Cyfreithiwr y Cyngor i dderbyn enwebiadau gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ac i gymeradwyo penodiadau i bwyllgorau'n unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.** | **Er mwyn gwneud penodiadau'n unol ag ystatud a'r Cyfansoddiad.** |

**Penodiadau i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Dywedodd Gyfreithiwr y Cyngor nad oedd pob un o'r grwpiau gwleidyddol wedi cyflwyno eu henwebiadau a gofynnodd am awdurdod dirprwyedig i dderbyn enwebiadau. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Sir J Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Sir E Durrant ac o 64 pleidlais i 0 gyda 5 yn ymatal,

| PENDERFYNWYD: | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Awdurdodi Cyfreithiwr y Cyngor i dderbyn enwebiadau gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ac i gymeradwyo penodiadau'n unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.** | **Er mwyn gwneud penodiadau'n unol ag ystatud a'r Cyfansoddiad.** |

**Panel Heddlu a Throseddu Dyfed Powys**

Dywedodd Gyfreithiwr y Cyngor nad oedd pob un o'r grwpiau gwleidyddol wedi cyflwyno eu henwebiadau a gofynnodd am awdurdod dirprwyedig i dderbyn enwebiadau.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir P Davies ac eiliodd y Cynghorydd Sir J Pugh fod y Cyngor yn gohirio fel y gallai'r grwpiau gwleidyddol benderfynu pwy i'w dewis i fod yn gynrychiolwyr ar bwyllgorau a chyrff allanol. Ar ôl cymryd pleidlais, collwyd y cynnig hwn o 17 pleidlais i 53 gyda neb yn ymatal.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir DW Meredith ac eiliodd y Cynghorydd Sir P Davies fod y Cyngor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfreithiwr i dderbyn enwebiadau, ac o 63 pleidlais i 1, gyda 4 yn ymatal,

| PENDERFYNWYD: | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Awdurdodi Cyfreithiwr y Cyngor i dderbyn enwebiadau gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ac i gymeradwyo penodiadau'n unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.** | **Er mwyn gwneud penodiadau'n unol ag ystatud a'r Cyfansoddiad.** |

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Dywedodd Gyfreithiwr y Cyngor nad oedd pob un o'r grwpiau gwleidyddol wedi cyflwyno eu henwebiadau a gofynnodd am awdurdod dirprwyedig i dderbyn enwebiadau. Cynigiodd y Cynghorydd Sir M Weale ac eiliodd y Cynghorydd Sir G Breeze fod y Cyngor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfreithiwr i dderbyn enwebiadau, ac o 67 pleidlais i 1, gyda 1 yn ymatal,

| PENDERFYNWYD: | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Awdurdodi Cyfreithiwr y Cyngor i dderbyn enwebiadau gan arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ac i gymeradwyo penodiadau'n unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.** | **Er mwyn gwneud penodiadau'n unol ag ystatud a'r Cyfansoddiad.** |

**Bwrdd Gweithredol y WLGA**

Cynigiodd y Cynghorydd Sir EM Jones ac eiliodd y Cynghorydd Sir MC Alexander fod yr Arweinydd yn cael ei benodi i Fwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phasiwyd hyn o 64 pleidlais i 1, gyda 3 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD: | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Penodi'r Arweinydd i Fwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.** | **Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor gynrychiolydd.** |

| 10. | ETHOL IS-GADEIRYDD |
|---|---|

Enwebwyd y Cynghorydd Sir David Meredith gan Sir Frycheiniog.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir David Meredith yn Is-gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

| 11. | ETHOL IS-GADEIRYDD CYNORTHWYOL |
|---|---|

Enwebwyd y Cynghorydd Sir Beverley Baynham gan Sir Faesyfed.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sir Beverley Baynham yn Is-gadeirydd Cynorthwyol am y flwyddyn i ddod.**

**County Councillor**